national
water safety
forum

# #PARCHWCHYDŴR

**Canllawiau'r Ymgyrch fersiwn1.0** Mawrth 2021

# #RESPECTTHEWATER

**Campaign Guidelines v1.0** March 2021

Mae'r canllawiau hyn yn dangos sut gallwch ddefnyddio **#ParchwchYDŵr** i **uno** a **chryfhau negeseuon diogelwch dŵr** gan eich sefydliad – ac mewn partneriaeth ag eraill.

Mae ymdrechion ar y cyd y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol i rannu negeseuon diogelwch wedi arwain at ymgyrch unedig: **#ParchwchYDŵr.** Bydd y slogan, yr hashnod a'r hunaniaeth hyn yn helpu i roi cysondeb i'n negeseuon a llais unedig sy'n adlewyrchu ein nodau diogelwch dŵr a rennir.

Dylai #ParchwchYDŵr gael ei ddefnyddio mewn gweithgarwch ymgyrch diogelwch dŵr, ochr yn ochr â negeseuon allweddol cytunedig wedi'u targedu at gynulleidfaoedd penodol. **NI** ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun ar nwyddau hyrwyddo.

**Pam defnyddio hashnod?**
Mae hashnod yn air neu'n ymadrodd gydag arwydd hash (#) o'i flaen, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chymwysiadau, i amlygu cynnwys digidol ar bwnc penodol.

Oherwydd sianeli digidol yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio i gyfleu negeseuon diogelwch, mae'n ffordd berffaith o uno'r ymgyrch. Felly, gofynnir i chi gynnwys #ParchwchYDŵr ar bob post cymdeithasol.

Beth bynnag fo'r neges ddiogelwch, bydd ychwanegu #ParchwchYDŵr yn amlygu'r pwnc ac yn golygu bod modd chwilio am y neges a'i rhannu – gan gyrraedd cynulleidfa ehangach. Bydd hefyd yn annog cynulleidfaoedd i ddefnyddio'r un ymadrodd eu hunain yn eu postiadau, gan rannu'r neges.
Gallwn fonitro'r defnydd ohono ac olrhain cyrhaeddiad cyfan yr ymgyrch.



These guidelines show how you can use **#RespectTheWater** to **unify** and **amplify water safety messages** from your organisation - and in partnership with others.

The National Water Safety Forum's combined efforts to share safety messages has led to a unified campaign: **#RespectTheWater**.
This slogan, hashtag and identity will help to give all our messaging a consistency and a united voice that reflects our shared water safety goals.

#RespectTheWater should be used in water safety campaign activity, alongside agreed key messages targeted at specific audiences. It should **NOT** be used in isolation on promotional merchandise.

**Why use a hashtag?**
A hashtag is word or phrase preceded by a hash sign (#), used on social media websites and applications, to identify digital content on a specific topic.

As digital channels are the ones most likely to be used to deliver safety messaging, it's an ideal way to unify the movement. So please include #RespectTheWater on all social posts.

Whatever the safety message, adding #RespectTheWater will identify the topic and make the messaging searchable and shareable – leading to a bigger audience reach. It will also encourage audiences to use the same phrase themselves in their posts, spreading the word.
We can monitor its use and track the total reach of the campaign.

# #ParchwchYDŵr
## postiadau cyfryngau cymdeithasol

Mae'n werth pwyso a mesur pa negeseuon fydd yn cael eu cynnwys yn nhestun eich post a beth fydd yn eich delwedd neu'ch fideo. Mae delweddau sy'n cynnwys gormod o destun yn llai tebygol o gael eu darllen neu eu cofio.


Ystyriwch rannu eich negeseuon rhwng y cyfleoedd hyn – er enghraifft, gallai eich post gynnwys y testun canlynol:

**Mynd i lan y môr? Dyma'r cyngor diogelwch y dylai pawb sy'n mynd i'r traeth ei wybod. #ParchwchYDŵr**

Byddai hwn yn cael ei bostio gyda fideo neu ddelwedd lonydd sy'n cynnwys y cyngor ar ddiogelwch, yn ddelfrydol yn erbyn ffilm neu lun sy'n dangos y gweithgaredd / risg dan sylw.

Fel arall, gallai eich holl gyngor allweddol fod yn nhestun y post os oes digon o le, gyda delwedd neu fideo sy'n dangos yr amgylchedd / gweithgaredd / risg priodol yn bennaf.

Ym mhob achos, dylai **#ParchwchYDŵr** ymddangos yn nhestun eich post *ac* yn eich fideo/delwedd.




**Enghraifft o bostiad:**
prif destun uwchben y ddelwedd gan gynnwys yr hashnod



# #RespectTheWater
## social media posts

It's worth weighing up what messaging is going in your post copy and what will be in your image or video. Images cluttered with too much text are less likely to be read or remembered.


Consider sharing your messaging between these opportunities - for example, your post copy could read:

**Heading to the seaside? Here are the safety tips every beachgoer should know. #RespectTheWater**

This would be posted with a video or static image containing the safety advice, ideally against footage or photography that shows the activity / risk that you're focussing on.

Alternatively, all your key advice could be in the post copy if there's space, with an image or video mainly showing the appropriate environment / activity / risk.

In all cases, **#RespectTheWater** should appear in your post text *and* in your video/image.




**Example post:**
primary text above the image including the hashtag

## Fersiynau o’r logo

Yn ogystal â chynnwys #ParchwchYDŵr ym mhrif destun post cymdeithasol am ddiogelwch dŵr, dylai gael ei ddefnyddio fel elfen weledol ar ddelweddau a fideo hefyd. Mae hyn yn darparu cysondeb ar gyfer deunydd creadigol gweledol ar draws yr ymgyrch.

Mae hefyd yn ffordd arall o annog defnydd o’r hashnod. Pan gaiff ei ddefnyddio ar y cyd â logos, mae’n dangos bod eich sefydliad (a’ch partneriaid) yn cefnogi’r ymgyrch.

**Fersiwn las** – i’w defnyddio ar ddelweddau gwyn neu olau

**Fersiwn wen** – i’w defnyddio ar liwiau/delweddau tywyll




**Gwerthoedd lliw glas**

Pantone 281 | CMYK: 100, 72, 0, 38
RGB: 0, 38, 99 | Hecs: #002663



## Versions of the logo

As well as including #RespectTheWater in the body copy of water safety social posts, it should be used as a visual element on images and video too. This provides consistency for visual creative across the campaign.

It’s also another way to encourage use of the hashtag. When used in conjunction with logos, it shows your organisation’s endorsement for the campaign (and the endorsement of your partners).

**Blue version** – to be used on white or light images

**White version** – to be used on dark colours/images




**Blue colour values**

Pantone 281 | CMYK: 100, 72, 0, 38
RGB: 0, 38, 99 | Hex: #002663

## Arweiniad ar ddylunio

**✓ Defnyddiwch yr ardal neilltuedig**
Dylai hyn fod yn uchder y llythyren ‘P’ o amgylch y logo. Mae hyn yn helpu sicrhau eglurder, amlygrwydd ac adnabyddiaeth o’r hunaniaeth.




**✗ Peidiwch ag ychwanegu cysgod nac aflunio’r logo**




**✓ Gwnewch yn siŵr fod y logo’n ddarllenadwy**
Ystyriwch ddefnyddio graddiant dros ddelweddau neu addasu lefelau i gynyddu cyferbynnedd






## Design dos and don’ts

**✓ Do make use of the exclusion zone**
This should be the height of the letter ‘R’ around the logo. This helps with the identity’s clarity, prominence and recognition.




**✗ Don’t add a drop shadow or distort the logo**




**✓ Do make sure the logo is legible**
Consider using a gradient over images or adjusting levels to increase contrast



# Negeseuon diogelwch

Dyma'r tair prif neges diogelwch dŵr, gydag enghreifftiau. Arweiniwch gyda'r negeseuon 'Ymddygiad diogel penodol' bob tro ac, yn ddelfrydol, cadwch at uchafswm o dri ymddygiad diogel allweddol i sicrhau bod pobl yn eu clywed a'u cofio.

### Ymddygiad diogel penodol (yn berthnasol i'ch sefydliad neu'ch cynulleidfa)

**Enghreifftiau:**

Gwisgwch ddyfais arnofio bersonol (caiacio)

Ewch â ffôn gyda chi (pobl sy'n defnyddio'r traeth neu ddiogelwch ar y traeth)

Ymwelwch â thraeth lle mae achubwyr bywyd (teuluoedd)

Cadwch fodd o alw am help ynghlwm wrthych neu yn eich poced (arnofio)

Gwiriwch ragolygon y tywydd ac amserau'r llanw (cerdded ar yr arfordir)

Cadwch eich injan mewn cyflwr da (hwylio/bad modur)

### Os byddwch yn mynd i drafferth yn y dŵr, arnofiwch i fyw

**Enghreifftiau:**

Pwyswch yn ôl a defnyddiwch eich breichiau a'ch coesau i'ch helpu i arnofio

Arhoswch nes bod eich anadl dan reolaeth cyn galw am help neu nofio

### Mewn argyfwng, ffoniwch 999 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau

**Enghreifftiau:**

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau

Os byddwch yn gweld rhywun mewn trafferth, ffoniwch 999 neu 112 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau



# Safety messages

These are the three main water safety messages, with examples. Always lead with the 'Specific safe behaviour' messaging and ideally stick to a maximum of three key safe behaviours to ensure cut-through and retention.

### Specific safe behaviour (relevant to your organisation or audience)

**Examples:**

Wear a personal flotation device (kayaking)

Take a phone (beach users or beach safety)

Visit a lifeguarded beach (families)

Keep a way of calling for help attached or in your pocket (going afloat)

Check weather forecast and tide times (coastal walking)

Keep your engine well maintained (sailing/motorboating)

### If you get in trouble in the water, float to live

**Examples:**

Lean back and use your arms and legs to help you float

Get control of your breathing before calling for help or swimming

### In an emergency, call 999 for the Coastguard

**Examples:**

In an emergency dial 999 for the Coastguard

If you see someone in trouble call 999 or 112 and ask for the Coastguard

# Enghreifftiau o frandio ar y cyd

Mae dyluniad yr hunaniaeth hon yn caniatáu i chi ei chysylltu â logo mwy nag un sefydliad – fel y dangosir yn enghreifftiau 1 a 2.

Neu gall logos y sefydliadau fod ar wahân – ar yr amod mai #ParchwchYDŵr yw'r hunaniaeth olaf (fel y dangosir yn enghraifft 3).


**Ceisiwch beidio â defnyddio gormod o logos.** Os oes nifer fawr o bartneriaid yn ymwneud ag ymgyrch, dewiswch y logos mwyaf perthnasol a fydd yn rhoi mwy o hygrededd i'r negeseuon ymhlith y gynulleidfa.

**Sylwch: NI** ddylid defnyddio brand y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (NWSF) gan nad yw'n cael ei adnabod yn gyhoeddus. Y brand mwyaf awdurdodol fyddai brand corff llywodraethu neu sefydliad chwilio ac achub (SAR).


**Enghraifft 1:**
ffrâm olaf ar fideo cymdeithasol 1x1




**Enghraifft 2:**
poster diogelwch dŵr




**Enghraifft 3:**
post cymdeithasol 9x16






# Examples of joint branding

The design of this identity allows you to lock it up with more than one organisation's logo - as demonstrated in examples 1 and 2.

Or the organisations' logos can be separate - as long as #RespectTheWater is the final identity (as shown in example 3).


**Avoid use of too many logos.** If a large number of partners are involved in a campaign, choose the most relevant logos that will give the messaging more credibility to the audience.

**Please note:** Branding for the National Water Safety Forum (NWSF) should **NOT** be used as it is not publicly recognised. The most authoritative branding would be that of a governing body or search and rescue (SAR) organisation.


**Example 1:**
end frame on 1x1 social video




**Example 2:**
water safety poster




**Example 3:**
9x16 social post



# Enghreifftiau

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos ble i leoli'r hunaniaeth #ParchwchYDŵr ar ddelwedd post cymdeithasol











# Examples

These examples show the placement of the #RespectTheWater identity on a social post image



# Elfennau dylunio ychwanegol

### Creu strwythur cyson ar gyfer deunydd creadigol yr ymgyrch

Gallwch roi eich tair neges ddiogelwch o fewn y siâp tarian o'r ymgyrch Parchwch y Dŵr gychwynnol. Mae'n ddyfais adnabyddus sy'n ychwanegu cysondeb a bob amser yn cyfleu'r hunaniaeth #ParchwchYDŵr. Argymhellwn ddefnyddio'r siâp tarian hwn lle y bo'n bosibl.




Mae'r pennawd sy'n benodol i weithgaredd yn dal sylw'r gynulleidfa berthnasol

Mae logos sefydliadau'n rhoi cefnogaeth a hygrededd

Mae angen i'r ddelwedd a ddefnyddir fod yn berthnasol i'r gweithgaredd a'r negeseuon diogelwch.

Mae angen i unrhyw bobl yn y ddelwedd fod yn dangos yr ymddygiad diogel h.y. yn gwisgo dyfais arnofio / tennyn.




Gwnewch yn siŵr fod gennych yr holl hawlfraint a chaniatadau i ddefnyddio'r ddelwedd.

Mae'r logo Parchwch y Dŵr yn gorffen unrhyw ddeunydd creadigol ar ddiogelwch gan bartneriaeth


Mae'r panel tri phwynt yn rhoi cyngor ymarferol



# Additional design elements

### Building a consistent structure for the campaign creative

The shield shape from the initial Respect the Water campaign can be used to house your three-point safety messages. It's a recognisable device that adds consistency and always points towards the #RespectTheWater identity. We recommend using this shield shape where possible.




The activity-specific headline grabs attention from relevant audience

Organisation logos give endorsement and credibility

Image used needs to be relevant to the activity and the safety messages.

Any people in the image need to be modelling safe behaviour i.e. wearing a flotation device / leash.




Ensure that you have all relevant copyright and permissions for using the image.

RTW logo signs off any partnership safety campaign creative

Three-point panel gives practical advice


# Enghreifftiau

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae'r cyfuniad o ddefnydd cyson o'r logo, pennawd, siâp tarian, negeseuon diogelwch tri phwynt a hunaniaeth yr ymgyrch i gyd yn creu cysondeb.












# Examples

These examples show how the combination of consistent logo use, headlining, shield shape, three-point safety messaging and the campaign identity all add up to consistency.









# Enghraifft 2: Bwrdd stori ffilm gymdeithasol

Mae fideos yn rhoi cyfle i gyflwyno'r pennawd sy'n berthnasol i'r gweithgaredd yn gyntaf i ddal y sylw, ac yna cyflwyno'r pwyntiau cyngor diogelwch un ar y tro.


Yna, mae hunaniaeth yr ymgyrch a logos y sefydliadau'n cefnogi'r negeseuon ar y diwedd.



















# Example 2: Storyboard social film example

Videos offer the opportunity to deliver the activity-relevant headline first to grab attention, then introduce the safety tips one-by-one.

Then the campaign identity and organisations' logos endorse the messaging at the end.


















Am fwy o wybodaeth am **#ParchwchYDŵr** neu am gefnogaeth bellach gan Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol, cysylltwch â **RTW@nationalwatersafety.org.uk**

For more information on **#RespectTheWater** or further support from the National Water Safety Forum, contact **RTW@nationalwatersafety.org.uk**

**Lawrlwythwch asedau #ParchwchYDŵr**

**Download the #RespectTheWater assets**

national water safety forum

#PARCHWCHYDŴR

**Canllawiau'r Ymgyrch fersiwn1.0** Mawrth 2021

#RESPECTTHEWATER

**Campaign Guidelines v1.0** March 2021